Pob Swyddog Cyfrifol
Drwy e-bost

23/05/2017

Annwyl Swyddogion Cyfrifol,

Polisi diweddaraf ar Reoli Digwyddiadau Rheoleiddio

O heddiw ymlaen, mae Cymwysterau Cymru wedi cyhoeddi fersiwn ddiwygiedig o'i Bolisi Rheoli Digwyddiadau Rheoleiddio (fersiwn 2) a gymeradwywyd gan Fwrdd Cymwysterau Cymru ar 16 Mai 2017.

Mae'r polisi wedi'i ddiwygio o fersiwn 1 i gynnwys:

- Diffiniad clir o'r hyn rydym yn ei ystyried yn ddigwyddiad rheoleiddio
- Cyfeiriad at yr Amodau Cydnabod Safonol
- Manylion prosesu newydd
- Rhagnodi'r Tîm Monitro a Chydymffurfiaeth fel y pwynt rhagosodedig ar gyfer goruchwylio digwyddiadau rheoleiddio yn hytrach na'r Prif Swyddog Gweithredol
- Proses uwchgyfeirio newydd
- Cyfeiriad at ofynion ar gyfer gwybodaeth
- Cyfeiriad at asesiad Cymwysterau Cymru ynglŷn â phryd y tybir bod digwyddiad wedi'i gwblhau neu ei ddatrys

Yn gywir,

Laura Porter

Pennaeth Polisi Strategol

Qualifications Wales
Q2 Building, Pencarn Lane
Imperial Park,
Newport
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701

www.cymwysteraucymru.org

Cymwysterau Cymru
Adeilad Q2, Lôn Pencarn
Parc Imperial,
Casnewydd
NP10 8AR
☎ 0333 077 2701